Polisi Goresgyn Tangyflawni

Nod: Nod y polisi hwn yw sicrhau fod pob un disgybl yn datblygu i'w lawn potensial ac yn cyrraedd safonau addysgiadol y gallant ymfalchïo ohonynt. Anelir i wneud hyn drwy ystyried dulliau rhagweithiol sy`n goresgyn tangyflawni cyn iddo ddatblygu yn ogystal â dulliau adweithiol sy`n cynnal disgyblion ac ymateb i dangyflawni. Yn ei hanfod, mae`r polisi hwn yn gorgyffwrdd â nifer fawr o bolisïau eraill yr ysgol.

Amcanion:

- Adnabod disgyblion sydd yn debygol o dangyflawni ac adnabod disgyblion sydd yn tangyflawni.
- Sicrhau fod disgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawni cyrhaeddiad sydd yn eu hymestyn i`r eithaf.
- Sicrhau monitro gofalus o berfformiad pob disgybl ac ymateb yn effeithiol i unrhyw dangyflawni.
- Targedu cefnogaeth yn effeithiol.
- Sicrhau fod pob un disgybl yn gallu defnyddio'r adnoddau angenrheidiol a derbyn cefnogaeth effeithiol, yn ystod a thu allan i oriau gwersi arferol, er mwyn iddynt ddatblygu'n addysgol.
- Datblygu'r syniad o 'addysg fel partneriaeth' rhwng yr ysgol, y disgybl, cartref, ac atgyfnerthu'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref.
- Sicrhau addysg o'r ansawdd uchaf posib i'r disgyblion.

Dulliau gweithredu:

- **Rôl a chyfrifoldeb y Pennaeth Maes Dysgu a Phrofiad:**

    - Sicrhau fod y pwnc yn cynnig darpariaeth addysgol safonol yn ei ystyr ehangaf.
    - Sicrhau fod gwersi yn rhai diddorol sy`n ennyn diddordeb, brwdfrydedd a chymhelliant y disgyblion.
    - Sicrhau fod gan pob blwyddyn strwythur i adnabod tangyflawni ac i gynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion sy`n tangyflawni.
    - Sicrhau fod pob blwyddyn yn targedu disgyblion penodol ac yn cynnig cynhaliaeth ychwanegol iddynt.

- **Rôl a chyfrifoldeb yr athro blwyddyn/athrawon CPA:** Conglfaen gweithrediad llwyddiannus y polisi hwn yw`r athro blwyddyn. Disgwylir i`r athro arddel disgwyliadau realistig ond heriol ar gyfer disgyblion a defnyddio ystod o ddulliau i gyrraedd y targedau hynny. Disgwylir i`r athro blwyddyn:

- osod targedau realistig a heriol ar gyfer disgyblion gan sicrhau fod y disgyblion yn ymwybodol o`i dargedau a`r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn eu cyrraedd.
- fonitro cynnydd disgyblion yn ofalus gan dynnu sylw, os oes angen, y Pennaeth Strategol, Dirprwy Bennaeth, Penaethiaid Ffês/ UDRh er mwyn sicrhau fod cynnydd priodol yn cael ei gynnal.
- ymyrryd yn bwrpasol er mwyn codi safonau.

Bydd yr athrawon blwyddyn hefyd yn mynnu fod pob gwaith yn cael ei gwblhau i`r safon gorau y gall pob disgybl unigol ei gyrraedd gan gynnwys:

- sicrhau trefn a thaclusrwydd llyfrau a ffeiliau gwaith cartref.
- osod tasgau byrion ac estynedig yn y dosbarth.
- osod tasgau byrion ac estynedig a osodir yn waith cartref.
- Profion - disgwylir i ddisgyblion sy`n tangyflawni ailsefyll profion tan eu bod yn llwyddo i gyrraedd safon sy`n adlewyrchu eu gallu.

Disgwylir i`r athro pwnc hefyd baratoi disgyblion at lwyddo mewn profion trwy ddefnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys**:**

- cyflwyno tasgau gwaith cartref addas.
- cyflwyno profion sy`n fwyfwy ymestynnol.

- **Rôl a chyfrifoldeb yr UDRH:**

  - Coladu a dadansoddi data fydd o gymorth i adnabod disgyblion sy`n tangyflawni.
  - Trefnu gwaith ymyrryd yn bwrpasol i roi cenfogaeth a chodi safonau.
- Cynnal proffil uchel a chefnogaeth ar lefel uchel i`r grŵp hwn.
- Cydlynu a darparu cefnogaeth i`r disgyblion hyn yn ôl yr angen, o fewn gwersi a thu allan i gyfnod gwersi.
- Cysylltu'n rheolaidd â rhieni yn ôl yr angen.
  - Cynnal disgwyliadau priodol uchel ar lefel ysgol gyfan.
  - Ar y cyd â Phennaeth Ffês 3, gweithredu fel tiwtoriaid personol ar gyfer disgyblion bl. 11.
  - Cefnogi aelodau eraill y staff yn eu hymdrechion.

- **Clwb Gwaith Cartref:**

  - Defnyddir y Clwb Gwaith Cartref, yn ei amryfal ffurfiau, gan gynnwys y ddarpariaeth sylfaenol a gweithdai penodol, i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion.
  - Dehonglir y term Clwb Gwaith Cartref i olygu mynediad at adnoddau a darpariaeth gefnogaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau ysgol.

- **Defnydd o ystadegau:** Ar gyfer pob blwyddyn, dadansoddir canlyniadau a thargedau disgyblion pob blwyddyn benodol. Defnyddir yr egwyddor o sgôr cyfartalog disgybl,

gwahaniaethau o fewn y sgôr hwnnw a `r berthynas rhwng targedau a chanlyniadau i adnabod yr isod er mwyn darparu cefnogaeth briodol.

- disgyblion sy`n tangyflawni`n gyffredinol.
- disgyblion sy`n tangyflawni mewn rhai pynciau`n unig.
- blynyddoedd sy`n gosod disgwyliadau rhy isel ar ddisgyblion.
- Blynyddoedd sy`n gosod targedau rhy heriol i ddisgyblion.

- **Adroddiadau blynyddol**: Bydd yr ysgol yn llunio adroddiad llawn ar ddiwedd y flwyddyn (er mwyn monitro datblygiad y disgybl. Cynhelir cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd er mwyn trafod y disgyblion deir gwaith y flwyddyn). Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol yn ôl yr angen a bydd staff yr ysgol hefyd yn dilyn yr un drefn.

- **Sicrhau addysg o'r ansawdd uchaf posibl i'r disgyblion:** Gweithredir rhaglen monitro ansawdd yn yr ysgol er mwyn monitro ansawdd y dysgu a`r addysgu.

Monitro ac arfarnu: Bydd y Pennaeth Strategol a`r UDRH yn monitro'r polisi hwn bob dwy flynedd.

Polisïau cysylltiedig:

- Cwricwlwm.
- Cynnal Ansawdd.
- Cyswllt â'r cartref.
- Clwb Gwaith Cartref.
- Anghenion Addysgol Arbennig (ADY).
- Asesu.
- Targedau a thargedu disgyblion.

Polisi Goresgyn Tangyflawni Ysgol Bro Idris	
Mabwysiadwyd ddiwethaf: Corff Llywodraethol Ysgol Bro Idris, 10fed o Orffennaf 2017	
Dyddiad mabwysiadu nesaf: Tymor yr Haf 2020	
Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol:	
Dyddiad:	
Llofnod y Pennaeth Strategol:	
Dyddiad:	